# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil
## Cyfarfod Nos Fawrth, Gorffenaf 9fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Arwel Davies, Huw Edwards, Geraint Thomas a'r clerc.

Ymddiheuriadau: Rhys Jones, Euros Puw a'r Cyng.Elwyn Edwards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mehefin 9fed 2026) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref. - **adroddodd y clerc fod y Cyngor wedi bod yn llwyddianus gyda'i cais a cytunwyd i archebu'r lleni llwyfan i Neuadd Parc a gofyn i Gwyn Charles gychwyn ar y gwaith yn mynwent Talybont. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn cyfraniad Neuadd Parc tuag at gostau'r lleni. Awdurdodwyd y clerc i dalu'r anfonebau pan fydd y gwaith wedi cael ei gwbwlhau ac hawlio'r arian yn nol o'r gronfa.**

### iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhybuddion cau ffordd yn Parc a'r B4391, Llan Ffestiniog ym mis Gorffennaf.

b) Un Llais Cymru.
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 28: Archwiliad Mewnol
ii) Modiwlau hyfforddi digidol newydd. **Cytunodd y clerc i fynychu un o'r sesiynnau hyfforddi a rhannu'r gost gyda Chyngor Llandderfel.**

c) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft. **Trafodwyd ei gynnwys a'r ymateb i anfon yn nôl.**
ii) Treniadau parcio newydd ger Llyn Tegid a Llangywer.
iii) Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio – gwybodaeth i gynghorau cymuned a thref.

ch) Amrywiol.
i) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - archwilio agweddau a chanfyddiadau Cynghorwyr Tref a Chymuned gan ystyried yn benodol eu barn ar faint a strwythur cynghorau o'r fath a sut maent yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol. **Gofynnwyd i'r clerc gwbwlhau'r holiadur.**
ii) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad canolfan hyfforddi Hwb Awen

### v) Ceisiadau Cynllunio.

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
**Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Fehefin a chafwyd yn gywir.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh)
ii) TWE
iii) Archwilio Cymru (awdit allanol 2024-25)

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEDI 8FED YN NEUADD MAESYWAEN.**